



### 1. Titw penddu

Mae'n llwyd ac oren frown a chanddo gap du, ond dim plu gwyrdd, melyn na glas! Hefyd, mae ei gynffon yn llai o hyd na chynffonau

gweddill y teulu, ac ef yw'r lleiaf o faint. Ar ei wegil mae clwt gwyn sy'n nodweddiantol ohono. Pryfed a'u cynrhon, copynnod, hadau mân a chnau yw ei fwyd. Wrth ei fod yn chwilio am damaid ar fonyff.

### 4. Drudwen

Mae rhai yn camgymryd y fwyalchen am y ddrudwen! Cynffon fer sydd ganddi ac mae'n cerdded a rhedeg, yn wahanol i hercian y fwyalchen. Mae piws a gwyrdd ei blu yn adlewyrchu, er dydi plu'r iâr ddim mor ddisglair. Y pig yn felyn yn yr haf, a'r cywion yn llwydfrawn. Pryfed, lindys a ffrwythau yw'r bwyd arferol.



### 2. Delor y cnau.

Dyma'r unig aderyn bach sy'n dringo i lawr bonyff wysg ei bîg. Pen mawr, pig gadarn, corff llydan a cynffon fer sgwâr sydd ganddo. Ei gefn yn llwydlas, ei fol yn oren/hufen a rhimyn du rhwng ei lygad. Lindys a

phryfed, cnau, mes a hadau yw ei fwyd. Bydd ei sŵn yn dyrnu cnau i'w glywed o hirbell!

### 5. Siglen Fraith

Yn y gaeaf mae ganddo wddf gwyn ac ymylon du iddo. Mae cefn yr iâr yn llwytach, a llai o ddu ar ei bron a'i choryn. I ddrysu pethau, mae'r aderyn ieuanc yn fwy brown a'r du a gwyn yn llwytach ac yn aneglur. Gan amlaf, fe'i gwelir yn rhedeg a rhuthro i ddal pryfed, lindys ac ychydig o hadau mân.



### 3. Robin goch

Crwn o gorff. Cefn brown, bol golau, wyneb a bron brown goch ac mae plu y ceiliog a'r iâr yr un fath. Y cywion yn frown, melynfrown, a brychni tywyllach ar eu plu. Ei hoff fwyd yw pryfed, copynnod, pryfed genwair, briwsion ac ychydig o hadau a ffrwythau. Bydd yn ffyrnid dros hawlio ei diriogaeth ac yn ei amddiffyn rhag robinod eraill!

### 6. Cnocell Werdd

Dyma'r fwyaf o'r dair cnocell sy'n nythu yng Nghymru. Fe welwch y crwmp melyn yn amlwg pan mae'n hedfan. Does dim plu coch ar fwstash yr iâr. Bydd yn hoffi gwledda mewn twmpathau morgrug. Fe'i gwelwch yn dringo ar risgl y coed i hela cynrhon, chwilog a phryfed eraill yn y pren a'r rhisgl. Ambell dro bydd yn trosholio llechi ar y to pan mae'n hela copynnod. I nythu, bydd yn tyllu siambr mewn coeden, ond nid yw byth yn codi nyth.



Pryd?

Ble?

Pwynt

- 1 \_\_\_\_\_  
2 \_\_\_\_\_  
3 \_\_\_\_\_

- 15  
20  
10

Pryd?

Ble?

Pwynt

- 4 \_\_\_\_\_  
5 \_\_\_\_\_  
6 \_\_\_\_\_

- 10  
15  
20